OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 Rhif 545 (Cy.58)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd (Diwygio Amrywiol a Dirymu) (Cymru) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *6 Mawrth 2013* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *11 Mawrth 2013* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 16(1) a (3), 17(1), 26(1) a (3) a 48(1) (c) a (4) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**).

Yn unol ag adran 48(4A) o'r Ddeddf honno, maent wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n pennu egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn pennu'r gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**3**), cafwyd ymgynghoriad cyhoeddus agored a thryloyw yn ystod cyfnod llunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Diwygio Amrywiol a Dirymu) (Cymru) 2013, maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 6 Ebrill 2013.

### Diwygio Rheoliadau Labelu Bwyd 1996

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Labelu Bwyd 1996(**4**) wedi eu diwygio yn unol â pharagraff (2).

(2) Yn rheoliad 50 (darpariaeth drosiannol), yn lle is-baragraff (b) o baragraff (15) rhodder y canlynol—

(**1**) 1990 p.16.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau "the Ministers" i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (1999 p.28), a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (2006 c. 32).

(**3**) OJ Rhif L31, 1.2.2002, t.1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EC) Rhif 596/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n addasu nifer o offerynnau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn y cyfeirir ati yn Erthygl 251 o'r Cytuniad i Benderfyniad y Cyngor 1999/468/EC o ran y weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu: Addasiad i'r weithdrefn reoleiddiol gyda chraffu — Rhan Pedwar (OJ Rhif L 188, 18.7.2009, t.14).

(**4**) O.S. 1996/1499, a'r offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/1268 (Cy.128); O.S. 2009/2880 (Cy.253) ac O.S. 2011/465(Cy.70) .

"(b) the matters constituting the alleged offence would not have constituted an offence under these Regulations if the amendments made by paragraphs (1) to (5) and (7) of regulation 2 of the Food Labelling (Declaration of Allergens) (Wales) Regulations 2008(**5**) had not been in operation when the food was sold.".

**Dirymu**

**3.** Mae'r Rheoliadau a ganlyn wedi eu dirymu —

(a) Rheoliadau Arsenig mewn Bwyd 1959(**6**);

(b) Rheoliadau Arsenig mewn Bwyd (Diwygio) 1960(**7**);

(c) Rheoliadau Arsenig mewn Bwyd (Diwygio) 1973(**8**);

(d) Rheoliadau Clorofform mewn Bwyd 1980(**9**); ac

(e) Rheoliadau Wyau heb eu Graddio (Hylendid) 1990(**10**).

*Lesley Griffiths*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

6 Mawrth 2013

(**5**) O.S. 2008/1268 (Cy.128).
(**6**) O.S. 1959/831.
(**7**) O.S.1960/2261.
(**8**) O.S. 1973/1052.
(**9**) O.S. 1980/36.
(**10**) O.S. 1990/1323.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiad pellach i reoliad 50(15) o Reoliadau Labelu Bwyd 1996 (O.S. 1996/1499), i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru, er mwyn cywiro gwall mewn offeryn diwygio blaenorol (O.S. 2011/465 (Cy.70)).

**2.** Yn ogystal, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu, i'r graddau y maent yn gymwys o ran Cymru —

(a) Rheoliadau Arsenig mewn Bwyd 1959 (O.S. 1959/831) a'u hofferynnau diwygio;

(b) Rheoliadau Clorofform mewn Bwyd 1980 (O.S. 1980/36); ac

(c) Rheoliadau Wyau heb eu Graddio (Hylendid) 1990 (O.S. 1990/1323).

**3.** Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar wneud Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol gwneud asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r buddiannau sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.